# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 7

UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

### PENNOD 1

UNO PRIF ARDALOEDD YN WIRFODDOL

*Ceisiadau i uno*

**121 Ceisiadau i uno**

(1) Caiff unrhyw ddau brif gyngor neu ragor wneud cais (“cais i uno”) ar y cyd i Weinidogion Cymru, yn gofyn iddynt ystyried gwneud rheoliadau uno o dan adran 124(1) sy’n uno eu prif ardaloedd i greu prif ardal newydd.

(2) Nid yw adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys i’r swyddogaeth o wneud cais i uno.

(3) Ni chaiff y swyddogaeth o wneud cais i uno fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth y prif gyngor o dan drefniadau gweithrediaeth.

(4) Mae maer etholedig i’w drin fel pe bai’n un o gynghorwyr y prif gyngor at ddibenion y swyddogaeth o wneud cais i uno.

(5) Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl cael cais i uno, yn penderfynu peidio â gwneud rheoliadau uno o dan adran 124(1), rhaid iddynt hysbysu’r prif gynghorau a wnaeth y cais.

## 122 Ymgynghori cyn gwneud cais i uno

(1) Cyn gwneud cais i uno rhaid i'r prif gynghorau ymgynghori â'r canlynol—

(a) pobl leol yn ardaloedd y prif gynghorau,

(b) pob un o'r cynghorau ar gyfer cymunedau yn ardaloedd y prif gynghorau,

(c) yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono o fewn ardaloedd un neu ragor o'r prif gynghorau,

(d) yr awdurdod tân ac achub ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardaloedd un neu ragor o'r prif gynghorau,

(e) y bwrdd neu'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardaloedd y prif gynghorau,

(f) y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardaloedd un neu ragor o'r prif gynghorau,

(g) pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn yr ystyr a roddir i "recognised" yn Neddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52)) gan un neu ragor o'r prif gynghorau,

(h) pob prif gyngor arall ar gyfer prif ardal y mae'r cynnig i uno yn debygol o effeithio arni, ac

(i) unrhyw bersonau eraill y mae'r prif gynghorau yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

(2) Gellir bodloni'r gofyniad yn is-adran (1) drwy ymgynghoriad a gynhelir cyn i'r adran hon ddod i rym.

## 123 Canllawiau ynglŷn â cheisiadau i uno

(1) Rhaid i brif gynghorau roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â gwneud cais i uno.

(2) Gellir bodloni'r gofyniad yn is-adran (1) drwy roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru cyn i'r adran hon ddod i rym, ac a ddyroddwyd yn benodol at ddiben yr adran hon.